# Arolygu darpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol

## Adroddiad meithrin ar:
## Cylch Meithrin Trelech

**Arolygydd Addysg Feithrin Cofrestredig: Mr Eifion R Morgan**

**Dyddiad yr arolygiad: 25/26 Chwefror 2010**

**Rhif y Contract: T/057/09N**

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Adroddiad ar arolygu lleoliadau meithrin yn y sector nas cynhelir**

**Enw'r feithrinfa: Cylch Meithrin Trelech**

**Cyfeiriad: Canolfan Gymdeithasol Trelech, Trelech, Sir Gaerfyrddin**

**Cod Post: SA33 6RU**

**Ffôn: 01994 484677**

**Person sy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd: Mrs Hevina Jones**

**Swydd: Arweinydd**

**Ynglŷn â'r arolygiad**

Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i ddarparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a helpu plant i gyflawni eu llawn botensial. Diben arall yw hysbysu rhieni a'r cyhoedd am ansawdd addysg feithrin. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad arolygu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y feithrinfa a dylai fod ar gael ar gais i bobl eraill.

Mae arolygwyr wedi defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi'r holl farnau. Dyma'r diffiniadau graddau:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion rhagorol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da'n gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

## 1.0 Cyd-destun y lleoliad

**Cyd-destun lleoliad y feithrinfa:**

Pentref bach wledig rhwy ddeng milltir o Gaerfyrddin yw Trelech. Mae y Cylch wedi'i sefydlu yn y pentref ers 1977 ac wedi symud yn ôl i'r neuadd gymunedol ar ol ei adnewyddu yn 2007. Mae`r lleoliad yn darparu`r Cylch ag adnoddau da iawn, ond gan fod y neuadd yn gyfleuster i`r gymuned, fe`i defnyddir ar gyfer dibenion eraill sy`n golygu clirio ardaloedd ac adnoddau`r Feithrinfa ar adegau. Ceir cyfyngiad hefyd o`r hyn y gellir eu harddangos ar y waliau. Fodd bynnag, drwyddi draw, dyma leoliad deniadol ar gyfer y plant a sicrha`r staff bod amrywiaeth dda o weithgareddau yn barod ar gyfer y plant bob bore.

Mae`r Cylch yn defnyddio`r neuadd fawr, y gegin a`r toiledau. Mae coridor bach yn arwain at y neuadd a defnyddir y coridor fel ardal hongian cotiau a defnyddir hysbysfwrdd i arddangos gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rhieni. Mae`r drws allanol yn ddiogel er mwyn sicrhau nad oes yr un plentyn yn medru gadael nag unrhyw oedolyn yn gallu dod i mewn yn ddi- rybudd. Tu allan, ceir iard ddiogel a chyfleusterau storio ar gyfer teganau ac offer mawr. Nid oes lle chwarae meddal, ond caiff y plant gyfle i blannu a thyfu hadau.

Mae`r Cylch wedi`i gofrestru gan yr AGGCC (Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) ar gyfer i fyny at16 o blant. Ar hyn o bryd, 6 o blant 3-4 oed sydd ar y gofrestr ac ariennir 4 ohonynt. Daw`r plant i`r Cylch yn dilyn eu penblwydd yn 2 oed gan adael am y cyfnod nesaf yn eu haddysg yn y tymor cyn ei bod yn 4 oed. Mae`r Cylch ar agor rhwng 9.15yb a 11.45yb am bedwar bore`r wythnos (nid fore Mawrth) am 38 wythnos o`r flwyddyn.

Cefnogir yr arweinydd gan ddau aelod o staff. Maent oll yn siaradwyr Cymraeg rhugl sy`n gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad ieithyddol y plant.

Mae`r ystafelloedd yn addas iawn ar gyfer anghenion yr holl blant ac er mwyn cwrdd ag anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r neuadd yn gynnes, yn olau ac yn lliwgar a phenodir ardaloedd ar gyfer gweithgareddau gwahanol sy`n darparu`r plant ag amrywiaeth ardderchog o weithgareddau. Mae`r neuadd yn fawr ac yn darparu mannau da ar gyfer gweithgareddau`r plant gan gynnwys gweithgareddau fel symud i gerddoriaeth a dawns. Mae digon o adnoddau ar gael ac mae`r deunyddiau a`r offer yn hygyrch i`r plant. Mae`r ardalaoedd wedi eu diffinio er mwyn cefnogi`r addysgu o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Ceir adnoddau da yn y gegin a fe`i defnyddir i baratoi byrbrydau`r bore gan ganiatau i unrhyw fwyd sy`n cael ei baratoi gan y plant gael ei goginio`n ofalus.

Daw`r plant sy`n mynychu`r Cylch o`r pentref a`r gymuned wledig. Nid oes neb o gefndir amddifad. Daw un plentyn o gartref lle siaredir Cymraeg yn reolaidd, un arall o deulu lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg a`r lleill o gartrefi lle siaredir Saesneg yn bennaf. Mae`r plant sy`n mynychu`r Cylch yn elwa o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Croesawir rheini i ymweld â`r Cylch cyn i`w plant fynychu a cheir llyfryn defnyddiol ar eu cyfer. Croesawir plant, pa beth bynnag bo`u cefndir, gan gynnwys rhai gydag

anghenion dysgu ychwanegol.  Nid oes yr un plentyn ar hyn o bryd sydd ag anghenion tebyg.

Enillodd y Cylch statws Cylch Rhagorol yn 2009 gan Fudiad Ysgolion Meithrin fel cydnabyddiaeth o ansawdd yr addysg mae`n ei darparu.  Caiff y Cylch gefnogaeth werthfawr hefyd gan Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae nifer o fudiadau, gan gynnwys y gymuned leol, wedi cefnogi`r Cylch yn ariannol.

Arolygwyd y Cylch gan yr AGGCC yn 2009 a chan Estyn yn 2003.  Mae`r Cylch wedi mynd i`r afael â phob argymhelliad.

Mae`r pwyllgor rheoli yn weithgar yn ei gefnogaeth o`r Cylch ac yn cwrdd yn dymhorol neu`n fwy yn ôl yr angen.

## 2.0 Prif ganfyddiadau'r adroddiad

### 2.1 Ansawdd a safonau cyffredinol darpariaeth addysgol a ph'un a yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo'r nodau ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus ai peidio

Mae ansawdd a safonau cyffredinol y ddarpariaeth addysgol yn briodol ac yn hyrwyddo Canlyniadau`r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus.

### 2.2 Safonau a gyflawnir gan blant yn y saith maes dysgu

| Maes dysgu | Gradd ar gyfer plant o dan bump oed |
|---|---|
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol** | 1 |
| **Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu** | 2 |
| **Datblygiad mathemategol** | 1 |
| **Datblygiad yn y Gymraeg** | Amherthnasol |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd** | 1 |
| **Datblygiad corfforol** | 1 |
| **Datblygiad creadigol** | 1 |

## 2.3 Barn arolygu ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliad

| Ansawdd yr addysg | Gradd ar gyfer plant o dan bump oed |
|---|---|
| **Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant** | **1** |
| **Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant** | **1** |
| **Ansawdd yr addysgu** | **1** |
| **Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant, ac adroddiadau i rieni a gofalwyr** | **2** |
| **Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned** | **1** |
| **Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant** | **1** |
| **Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad** | **1** |
| **Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf** | **1** |

## 3.0 Y safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Safonau a gyflawnir gan blant 3-4 oed.

## 3.1 Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodwedion rhagorol**

Mae`r holl blant yn hyderus iawn ac yn ffurfio perthynas yn hawdd gyda phlant ac oedolion eraill. Maent yn sensitif i anghenion eraill ac yn dangos anwyldeb tuag at ei gilydd. Mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda iawn ymhob sefyllfa, yn cymryd tro, yn rhannu ac yn arfer hunanreolaeth dda iawn o ystyried eu hoedran.

**Nodweddion da**

Mae gan yr holl blant lefel uchel o annibyniaeth a`r hyder i ddewis gweithgareddau sy`n eu diddori. Gweithiant yn hapus mewn parau neu yn unigol am gyfnodau sylweddol o amser gan ofyn am gymorth yn ôl yr angen. Dangosant raddfa dda o hunan-reolaeth gan ymateb yn gadarnhaol i oedolion. Mae`r holl blant yn mwynhau profiadau dysgu newydd fel gweithgareddau ar y cyfrifiadaur. Mae`r holl blant yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am lendid personol ac yn chwarae`n ddiogel.

Mae gan yr holl blant ddealltwriaeth sylfaenol dda am draddodiadau a dathliadau rhai o arferion Cymru a atgyfnerthir gan ddathliadau fel Dydd Gŵyl Dewi, cymryd rhan mewn eisteddfodau lleol a dawnsio twmpath. Maent yn dathlu gwyliau Cristnogol fel

y Nadolig a`r Pasg ac yn dod yn ymwybodol hefyd o ddiwylliannau eraill gan gynnwys dathliadau sy`n gysylltiedig â`r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a`r ŵyl Iddewig Gŵyl y Cysegriad.

### 3.2 Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

Mae`r holl blant yn gwrando`n dda iawn ac yn ymateb yn gadarnhaol i oedolion. Mae dealltwriaeth y plant o`r iaith Gymraeg yn amrywio ac yn dibynnu`n helaeth ar eu cefndir. Drwyddi draw, maent yn deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad. Mae`r holl blant yn mwynhau storiau ac yn medru ailadrodd geiriau cyfarwydd maent yn clywed gan oedolyn a geiriau mewn caneuon a rhigymau Cymreig.

Mae`r holl blant yn dangos diffordeb mewn llyfrau – mae`r rhan fwyaf yn mwynhau edrych ar lyfrau ac yn eu dal fel darllenydd. Gwyddai`r plant fod gan eiriau ystyr a`u bod yn cyfleu gwybodaeth – roedd hyn yn amlwg wrth i un plentyn ymateb i lythyr a anfonwyd i`r dosbarth.

Mae`r holl blant yn mwynhau profiadau gwneud marciau gan ddefnyddio sialc neu peniau ffelt. Maent yn deall swyddogaethau ysgrifennu.

**Diffygion**

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig ond byddai dysgu`r plant yn gwella drwy ganolbwyntio ar y camau nesaf yn eu datblygiad ieithyddol.

### 3.3 Datblygiad mathemategol

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn rhifo`n bwrpasol ac yn gywir i bump a rhai i ddeg. Maent yn adnabod ac yn enwi siapiau syml dau-ddimensiwn, fel siapiau diamwnt, ac mae ganddynt ymwybyddiaeth o bwrpas arian.

**Nodweddion da**

Mae`r holl blant yn ymateb i ac yn ymuno â rhigymau a chaneuon rhif. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o eirfa fathemategol, fel mwy a llai, gormod a dim digon. Mae`r rhan fwyaf o blant yn adnabod patrymau sylfaenol ac yn medru cyfateb siapiau fel gyda jigso. Fedrant ddidoli parau o wrthrychau, fel wrth fatsio esgidiau. Mewn gweithgareddau dosbarth , maent yn rhifo gwrthrychau cyfarwydd fel llysiau ac yn trefnu gwrthrychau cyfarwydd.

Mae llawer o`r plant yn dechrau adnabod rhifau sylfaenol wrth iddynt gael eu hysgrifennu gan eu trefnu i 3.  Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn dechrau mesur ac yn gwerthfawrogi`r pwysigrwydd o bwyso, fel wrth ddilyn rysait.

## 3.4 Datblygiad yn y Gymraeg

**Amherthnasol**

## 3.5 Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

Mae gan yr holl blant ddealltwriaeth dda o`r syniad o newid.  Drwy brofiadau ymarferol, gwyddant fod bwydydd yn newid wrth eu cymysgu a`u coginio.  Gwyddant hefyd, drwy eu gweithgareddau, bod eira yn toddi yn ddŵr.  Mae`r plant wedi archwilio amrywiaeth dda o ddefnyddiau sy`n fyw (fel anifeiliaid bach) a defnyddiau sydd ddim (fel cregyn a chreigiau sy`n cael eu harddangos yn y dosbarth).  Maent wedi defnyddio chwyddwydrau wrth arsylwi.

**Nodweddion da**

Mae`r holl blant wedi plannu hadau gan arsywli ar eu tyfiant.  Gwyddant fod angen amodau addas a gofal ar hadblanhigion er mwyn iddynt dyfu.  Maent yn adnabod ac yn enwi rhai llysiau a ffrwythau cyffredin ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o fwyta`n iach.

Mae gan yr holl blant ddealltwriaeth sylfaenol dda o`r tywydd ac yn medru disgrifio`r tywydd dyddiol.  Gwyddant fod y gaeaf yn oer a bod adar yn elwa o gael eu darparu â bwyd.  Mae`r plant wedi cymysgu bwyd i`r adar.  Gwyddant fod angen gofal a bwyd ar anifeiliaid bach, fel ŵyn.

Mae ymweliadau â`r goedwig leol wedi galluogi`r plant i archwilio dail ac anifeiliaid bach yn uniongyrchol.  Gwyddant fod dail yn newid eu lliw yn yr hydref a bod rhai hadau yn hedfan yn y gwynt.  Mae ymweliadau tebyg hefyd yn galluogi`r plant i ddod yn fwy ymwybodol o`u hamgylchfyd.  Gwyddant hefyd bod gwrthrychau anhryloyw fel dail yn bwrw cysgod wrth daflu goleuni arnynt.

## 3.6 Datblygiad corfforol

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

Mae`r holl blant yn defnyddio offer mawr fel beiciau tair olwyn a cheir bach yn hyderus ac yn gymwys iawn gan wneud defnydd da o ofod. Maent yn trin offer bach fel penseli, creonau, sialc a sisyrnau gyda rheolaeth gynyddol. Mae`r holl blant yn dangos cyd symud llaw-llygad da iawn a`r gallu i chwarae yn annibynnol neu i rannu adnoddau gyda ffrind.

**Nodweddion da**

Mae`r holl blant yn defnyddio gofod yn dda ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o`i gilydd wrth symud mewn gwahanol fyrdd. Cyd-weithiant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth o wahanol ffyrdd o symud, gan gynnwys cerdded, neidio a hercian.

Mae`r holl blant yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan ymateb yn brydlon fel wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau symud i gerddoriaeth. Mae gan yr holl blant fedrau trafod da, fel wrth ddefnyddio blociau adeiladu gan gyd-weithio yn dda â`i gilydd.

## 3.7 Datblygiad creadigol

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

Mae`r holl blant yn mwynhau chwarae rôl a drama ddychmygol gan ymgymryd â gweithgareddau tebyg o`u gwirfodd. Maent yn mwynhau chwarae rôl gyda`i gilydd ac yn gwerthfawrogi gwaith eraill.

Mae gan yr holl ddisgyblion fedrau creadigol da iawn a fedrant ddewis y paent a`r deunyddiau sydd angen arnynt i greu eu delweddau.

**Nodweddion da**

Defnyddia`r holl blant amrywiaeth dda o ddeunyddiau, gan wneud dewisiadau, cymysgu paent, trefnu a chyfuno deunyddiau i greu eu delweddau eu hun, fel wrth wneud cardiau Nadolig. Mae`r plant yn gallu gwneud arteffactau tri-dimensiwn fel modelau yn cynrychioli draenogod. Maent yn defnyddio a modelu clai hefyd i gynrychioli anifeiliaid fel draenogod a siapiau gwahanol.

Mae`r holl blant yn mwynhau creu cerddoriaeth gan defnyddio offerynnau taro ac maent yn dechrau gwerthfawrogi rhythm. Canant yn swynol ac maent yn mwynhau gweithgareddau symud i gerddoriaeth.

## 4.0 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-4 oed.

### 4.1 Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

Mae`r holl blant, yn ddi-eithriad, yn dangos anwyldeb tuag at ei gilydd ac yn parchu eu hanghenion. Hyrwyddir medrau personol a chymdeithasol yn effeithiol iawn, yn ogystal â`u datblygiad diwylliannol a lles. Mae pwyslais da iawn ar ddatblygu`r iaith Gymraeg a thraddodiadau diwylliannol Cymru.

**Nodweddion da**

Mae gan y lleoliad amcanion a gwerthoedd clir sy`n cael eu gweithredu`n llawn yn ymarferol. Mae`r holl blant yn parchu ei gilydd ac mae cyfleoedd cyfartal yn amlwg i bawb. Mae`r plant yn ymddwyn yn dda ac yn ymateb yn brydlon i`r staff.

Hyrwyddir yr iaith Gymraeg yn dda gan staff sydd â`r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, fel bod iaith pob plentyn yn cael ei datblygu`n dda pa beth bynnag yw`r cefndir ieithyddol.

Cefnogir datblygiad ysbrydol y plant gan werthfawrogiad o`u cymuned drwy ymweliadau â`r ardal fel y goedwig leol a thrwy gasgliadau ar gyfer rhai sy`n llai ffodus na nhw. Mae gweddiau cyn byrbrydau`r bore yn atgyfnerthu`r credoau yma.

Mae`r plant yn cael eu cyffroi gan y tasgau â ffocws iddynt, a gwelwyd un achos amlwg o`r “Waw ffactor” wrth i`r plant bwyso eu cynhwysion mewn gweithgaredd coginio.

Yn foesol, caiff plant eu darparu â fframwaith ymddygiad cryf sy`n nodi gonestrwydd, chwarae teg a dealltwriaeth glir o dda a drwg.

Mae`r Cylch yn annog ymdeimlad cryf o gymuned gan gynnwys ymwelwyr o`r gymuned, rhieni a gofalwyr a phobl sy`n eu helpu. Mae hyn oll yn gymorth i ddatblygu ymdeimlad o berthyn a hunan-ddelwedd a lles.

## 4.2 Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

Cynllunir y cwricwlwm yn dda iawn er mwyn diwallu anghenion pob plentyn ac i ddarparu dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Mae gan y Cylch adnoddau da sy`n hygyrch i`r plant a sicrha hyn, ynghyd â chymhareb plentyn/oedolyn dda iawn, bwyslais ar weithgareddau a arweinir gan y plant. Rhydd hyn hefyd gyfleoedd rhagorol i`r staff ddatblygu geirfa Gymreig y plant.

**Nodweddion da**

Mae`r cynllunio wedi`i selio`n gadarn ar y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant ac yn darparu`r plant â chwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol. Mae`r cynllunio`n seiliedig ar ddull lleoliad-cyfan a chynhwysir yr holl staff. Caiff y Cwricwlwm Cymreig ac amrywiaeth ddiwylliannol eu cynrychioli`n amlwg yn y cwricwlwm.

Mae`r cynllunio yn gynhwysfawr ond nid yw`n or-fiwrocrataidd gan nodi`n ddyddiol canolbwynt yr addysgu. Ceir cyd-bwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir gan oedolion a chan blant a chaiff yr holl blant gyfleoedd da i ddewis eu gweithgareddau eu hun. Ceir cyfleoedd ar gyfer darpariaeth uwch a thasgau â ffocws.

## 4.3 Ansawdd yr addysgu

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

Mae`r staff yn paratoi cyfleoedd symbylol, heriol a chyffrous ar gyfer yr holl blant a thrwy eu hymrwymiad a`u brwdfrydedd maent yn sicrhau bod pob plentyn yn cymryd rhan yn llawn ac yn mwynhau. Mae`r Feithrinfa yn amgylchedd dysgu cadarnhaol lle mae`r plant yn teimlo`n ddiogel.

**Nodweddion da**

Cyd-weithia`r staff yn dda iawn fel tîm er mwyn cefnogi cyflawniad a chynnydd y plant. Mae gan staff wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o athroniaeth fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu`r plant. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o gynnydd a chyflawniad plant sy`n cael eu gwireddu`n ymarferol.

Mae gan y staff berthynas dda iawn gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn sensitif i`w hanghenion. Mae`r plant yn gwerthfawrogi ac yn parchu`r staff ac yn mynd atynt yn hawdd. Rheolir a threfnir y cwricwlwm yn effeithiol er mwyn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant yn y chwe maes dysgu.

Mae`r addysgu yn canolbwyntio`n dda ar gydraddoldeb o ran cyfleoedd a pharch at amrywiaeth sy`n gwneud darpariaeth i`r plant ddysgu drwy chwarae ac ymgysylltiad gweithredol.  Defnyddir adnoddau`n dda i gefnogi`r addysgu.

Mae`r addysgu yn sicrhau cydbwysedd da a nodwedd dda a nodedig yw gallu`r staff i werthfawrogi pryd i ymyrryd a phryd i beidio ymyrryd yn ystod gweithgareddau`r plant.  Defnyddir cwestiynu yn dda iawn i ddatblygu medrau meddwl y plant ac i ddatblygu eu hiaith.

## 4.4 Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

Ceir strategaeth lleoliad-cyfan dda ar gyfer asesu cyflawniad a chynnydd plant. Mae`r gweithdrefnau asesu yn ddibynadwy ac asesir plant yn reolaidd yn ystod eu gweithgareddau.  Mae`r cofnodion yma`n cael eu cynnwys yn ffeil gofnod y plentyn. Mae`r gymhareb plentyn/oedolyn ffafriol iawn yn galluogi`r oedolion i drafod yr hyn sy`n cael ei wneud gyda`r plant ac i ddefnyddio cwestiynu da i brofi eu dealltwriaeth. Mae hyn yn galluogi`r staff hefyd i fod yn ymwybodol o`r camau nesaf yn nysgu`r plant.

Mae`r staff yn cwrdd â rhieni a gofalwyr wrth i`r plant gyrraedd yn y bore ac wrth iddynt adael ac mae trafodaethau yn ystod y cyfnodau hyn yn cadw rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o gynnydd plant.  Yn ogystal, ceir adroddiad ddiwedd tymor sy`n seiliedig ar yr hyn mae eu plant yn cyflawni yn y chwe maes dysgu.  Sicrha hyn fod rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn llawn yn nysgu eu plant.

**Diffygion**

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig, ond er i`r camau nesaf yn nysgu`r plant gael eu nodi, nid ydynt bob amser yn amlwg yn y cynllunio.

## 4.5 Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a’r gymuned

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

Mae`r berthynas â`r rhieni a`r gofalwyr a`r gymuned yn rhagorol.  Mae trafodaethau â rhieni yn ystod yr arolygiad a dadansoddiad o`r holiadur cyn-arolygiad yn cadarnhau hyn.  Hysbysir rheini a gofalwyr yn dda am gynnydd eu plant drwy drafodaethau rheolaidd ac adroddiadau diwedd tymor.

**Nodweddion da**

Mae rhieni yn ymweld â`r Cylch gyda`u plant cyn i`r plant fynychu yn reolaidd. Ceir llyfryn defnyddiol a llawn gwybodaeth sy`n disgrifio`r gweithgareddau ac sy`n darparu`r rhieni a`r gofalwyr â manylion gweinyddol. Yn ogystal, mae`r Cylch yn trefnu gweithgareddau ac yn gwahodd rhieni a phlant atynt. Yn y gymuned wledig hon, mae rhieni yn cymryd y cyfleoedd hyn ar gyfer cwrdd yn anffurfiol wrth iddynt ddod â`u plant a`u casglu.

Arddangosir hysbysebion gan gynnwys polisiau a thema`r tymor yn amlwg yn y cyntedd. Mae polisiau`r Cylch yn seiliedig ar y rhai a ddarperir gan Fudiad Ysgolion Meithrin. Mae gweithdrefnau cwyno mewn bodolaeth ond nid ydynt wedi cael eu defnyddio.

Gwna`r Cylch ddefnydd da o`r gymuned a`r ardal. Mae`r plant yn ymweld â`r goedwig gyfagos yn reolaidd. Maent hefyd wedi ymweld yn reolaidd â`r Swyddfa Bost nes iddi gau. Mae ymwelwyr o`r gymuned yn gwella dysgu`r plant, er enghraifft, dysgu`r plant i wneud dawnsio gwerin.

## 4.6 Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

Mae`r ethos cyffredinol a`r gofal a`r gefnogaeth caiff y plant yn rhagorol. Mae`r plant yn dangos ymdeimlad o fod yn dawel ac yn fodlon eu byd gan arddangos hyder i fynd i`r afael â phrofiadau newydd. Mae`r holl blant yn dangos disgwyliadau awyddus o`r hyn sy`n eu hwynebu wrth iddynt gyrraedd yn y bore.

**Nodweddion da**

Mae gan y Cylch bolisiau a gweithdrefnau clir ar gyfer diogelu plant a gwelir rhain yn amlwg yn ymarferol. Yr arweinydd yw`r cyd-lynydd penodedig ond cyd-weithia`r holl staff yn dda iawn ar gyfer lles y plant. Mae pob un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant priodol.

Ceir trefniadau da ar gyfer diogelwch – mae`r Cylch yn ddiogel ac nid oes yr un plentyn yn medru gadael na`r un oedolyn yn medru dod i mewn yn ddi-rybudd. Mae`r ffens ddiogelwch a godwyd yn ddiweddar yn sicrhau bod yr ardal chwarae allanol yn ddiogel.

Caiff y plant eu goruchwylio yn dda iawn bob amser ac mae`r berthynas dda iawn rhwng plant a phlant a rhwng plant ac oedolion yn sicrhau nad oes unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bodoli.

Mae gweithdrefnau clir ar gyfer ymddygiad diogel ar ymweliadau ac mae`r gweithdrefnau i ddelio â damweiniau yn hysbys i`r holl staff. Mae arweinydd a chynorthwy wraig y cylch wedi derbyn hyfforddiant a thystysgrif cymorth cyntaf.

Mae`r Cylch yn darparu`r plant â byrbrydau iach a maethlon yn ogystal â bod yn gyfnodau cymdeithasol da.  Ceir digonedd o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol egnïol tu fewn a thu allan ar yr iard.

### 4.7 Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

Yn ddiweddar, mae`r Cylch wedi datblygu gweithdrefnau hunan arfarnu effeithiol sy`n rhestru`n glir y cryfderau a`r diffygion yn y ddarpariaeth.  Trafodwyd a chytunwyd ar hyn gan y staff a`r pwyllgor rheoli a rhestrwyd yn glir y targedau, meini prawf llwyddiant, dyddiadau a phobl sy`n gyfrifol am arolygu`r gwelliannau.

**Nodweddion da**

Cyd-weithia`r staff yn dda iawn fel tîm o dan arweinyddiaeth yr arweinydd.  Mae`r staff yn ymwybodol o`u cyfrifoldebau a gweithia pob un ar gyfer lles y plant.  Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn sensitif i`w hanghenion.

Mae`r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol.  Mae`r hunanarfarnu yn barhaus sydd wedi dylanwadu`n dda ar y ddarpariaeth gyffredinol. Mae perthynas dda iawn yn amlwg gyda phartneriaethau lleol a`r gymuned.

Mae`r Cylch wedi elwa o`r arbenigedd a ddarperir gan Bartneriaeth Datblygu`r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a chefnogaeth Mudiad Ysgolion Meithrin.

Yn ariannol, mae`r Cylch wedi elwa`n sylweddol hefyd o gefnogaeth mudiadau lleol fel y cynllun “punt am bunt” gan fanc lleol.  Mae`r Awdurdod Lleol, trwy fudiadau elusennol a`r gymuned leol wedi cyfrannu hefyd.

Mae perthynas dda iawn yn bodoli gyda`r ysgol gynradd leol.  Defnyddir yr adnoddau a`r ystafelloedd yn dda.  Drwyddi draw, mae`n drueni nad oes mwy o blant yn cymryd mantais o`r ddarpariaeth a gynigir gan y Cylch.

### 4.8 Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu’r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf

Mae`r Cylch wedi mynd i`r afael yn llwyddiannus â`r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad arolygu blaenorol gan Estyn.

## 5.0 Argymhellion

**Mae angen i'r lleoliad:**

A1 barhau i ddarparu`r ddarpariaeth o safon uchel sy`n amlwg ar hyn o bryd;

A2 datblygu`r amgylchedd allanol er mwyn darparu profiadau symbylol ar gyfer y plant; a

A3 defnyddio`r wybodaeth asesu i gynllunio`r camau nesaf yn nysgu`r plant.

**Rhaid i'r darparwr lunio cynllun gweithredu ymhen 40 diwrnod gwaith, neu 45 diwrnod gwaith os oes angen cyfieithu'r cynllun i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, gan ddangos sut eir i'r afael â'r materion a nodir uchod. Rhaid rhoi'r cynllun gweithredu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y lleoliad. Rhaid anfon copi o'r cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, fel y bo'n briodol, ac i'r Awdurdod Lleol. Bydd arfarniad o'r camau a gymerwyd yn ffurfio rhan o'r arolygiad nesaf.**